# Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol am 2018/19

Paratowyd y polisi cyflogau hwn yng ngoleuni argymhelliad Llywodraeth Cymru yn ymwneud â thryloywder ynglŷn â thaliadau uwch staff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Diffiniadau**

**Uwch Swyddi** - i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol yw'r rhain.
**Gweithwyr ar y Cyflog Isaf** - i ddibenion y datganiad polisi cyflogau blynyddol, swyddi Pwynt 2, Gradd 1 ar Raddfa Taliadau HERA yw'r rhain.

Mabwysiadwyd y diffiniadau hyn am eu bod yn adlewyrchiad cywir o hyd a lled poblogaeth gweithwyr y Brifysgol.

Ar ben hyn, gan fod y Brifysgol wedi'i hachredu'n gyflogwr gwir Gyflog Byw, nid oes un o'r gweithwyr yn cael cyflog is na'r hyn a ddiffinnir ar gyfer Gradd 1, Pwynt 2, sef ar hyn o bryd, £9.00 yr awr ar 31 Gorffennaf 2019.

**Y gymhareb**

Ar sail y diffiniadau hyn, y gymhareb rhwng cyfartaledd cyflogau'r uwch swyddi a'r swyddi cyflog isaf yw **1.7.3**.

**Tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth arian:**

Nifer yr uwch swyddi sydd â phecyn taliadau dros £100,00, yn seiliedig ar dâl sylfaenol yn ogystal ag unrhyw lwfans am gyfrifoldeb ychwanegol ar 31 Gorffennaf 2018:

| | Nifer yr Uwch Swyddi |
|---|---|
| £ 95,000-£99,999 | 3 |
| £105,000-£109,999 | 1 |
| £110,000-£114,999 | 1 |
| £115,000-£119,999 | 1 |
| £-135,000-139,000 | 1 |
| £220,000-£224,999 | 1 |

**Rheoli Perfformiad**

Dulliau’r corff o reoli doniau mewnol: mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad,

sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad. Rydym yn cynnig, yn ogystal â hyn, amrywiaeth o rwydweithiau, a chynlluniau datblygu arweinyddiaeth a mentora i gefnogi datblygiad a chynnydd gyrfa.

**Cyflog cysylltiedig â pherfformiad**

Mae gan y Brifysgol gynllun cyflog cysylltiedig â pherfformiad, Cynyddrannau Cyflymedig a Phwyntiau Cyfrannu (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/reward-and-recognition/contribution/) i'r holl staff, er ei fod wedi'i oedi ar hyn o bryd oherwydd y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd. Pan fydd y cynllun yn weithredol, gall unrhyw reolwr llinell gyflwyno enw aelod o'r tîm, neu gall unigolyn wneud cais ar ei ran/rhan ei hun, i symud un pwynt neu ddau i fyny'r raddfa gyflogau. Os yw'r unigolyn ar frig y raddfa yna gellir ychwanegu'r Pwyntiau Cyfrannu sydd ar ben bob graddfa.

**Cefnogaeth i Staff**

Dulliau cefnogi staff sydd ar gyflogau is ; dechreuodd y Brifysgol dalu'r Gwir Gyflog Byw ym mis Ebrill 2018 a chafodd ei hachredu'n gyflogwr y Gwir Gyflog Byw ym mis Hydref 2018. Mae pob aelod o staff y Brifysgol, waeth beth yw eu cyflog, yn mynd trwy drefn flynyddol y Cynllun Cyfraniad Effeithiol o adolygu perfformiad, sydd yn ei dro yn cael ei ddefnyddio i fwydo i gynlluniau datblygu gyrfa, anghenion hyfforddi a cheisiadau posibl am gyflog cysylltiedig â pherfformiad.

**Cyfraddau tâl**

Y pwynt cyflog uchaf yw Pwynt 9 ar y Raddfa Athrawol, (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/salary-scales/) mae hyn yn cyfateb i £99,191 (ar 31 Gorffennaf -2019). Cyflwynwyd y Raddfa Athrawol yn 2012 i sicrhau tryloywder ynglŷn â'r tâl a chynnydd posibl i fyny'r Raddfa Athrawol. Mae rhai uwch swyddi'n derbyn cyflogau ar gyfradd yr unigolyn sy'n fwy na hyn; caiff y cyflogau hynny eu pennu'n seiliedig ar ddata meincnodi perthnasol o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector Addysg Uwch. Mae Pwyllgor Cyflogau'r Brifysgol yn cael adroddiad blynyddol am bob penodiad a wneir ar y Raddfa Athrawol neu gyflogau cyfradd yr unigolyn.

Y pwynt tâl isaf yw Pwynt 2 ar y Golofn Dâl Sengl (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/salary-scales/), sef £16,420 ar hyn o bryd. Ond, mewn gwirionedd mae'r unigolion ar y pwynt hwn yn derbyn y Gwir Gyflog Byw cyfredol, sef £17,082.

**Polisïau Diswyddo**

Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol, ac ni ddisgwylir i hwn amrywio yn y dyfodol agos (https://www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/vs). Yn achos staff sy'n gadael oherwydd diswyddo gorfodol mae'r Brifysgol yn gwneud taliad statudol Dileu Swydd yn unol â graddfeydd cyfredol (https://www.gov.uk/calculate-your-redundancy-pay).

Mae'r Brifysgol yn cydymffurfio ag arferion cyfrifo presennol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol llawn ar daliadau yn rhan o'i phrosesau adrodd blynyddol.